O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 451 (Cy. 143)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Meadows Bridge i Gylchfan Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021

Gwnaed	*1 Ebrill 2021*
Yn dod i rym	*12 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Meadows Bridge i Gylchfan Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 12 Ebrill 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Ebrill 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun;

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Ebrill 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â'r ffordd ymadael wrth gyfnewidfa Meadows Bridge hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A48 wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at ei thrwyniad â'r ffordd ymuno wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.